OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 Rhif 978 (Cy.101)

# GOFAL IECHYD A PHROFFESIYNAU CYSYLLTIEDIG, CYMRU

## Gorchymyn Diddymu Proffesiynau Iechyd Cymru 2006

| | |
|---|---|
| *Wedi - - - -* | *29 Mawrth 2006* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ebrill 2006* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 5 o Ddeddf Iechyd (Cymru) 2003(**1**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Diddymu Proffesiynau Iechyd Cymru 2006 a daw i rym ar 1 Ebrill 2006.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru.

(3) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "awdurdod goruchwylio lleol" ("*local supervising authority*") yw'r corff sy'n arfer swyddogaethau yn unol ag erthyglau 42(1)(b) a 43 o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001(**2**);

ystyr "y Cynulliad Cenedlaethol" ("*the National Assembly*" ) yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "Gorchymyn 2004" ("*the 2004 Order*") yw Gorchymyn Proffesiynau Iechyd Cymru (Sefydliad, Aelodaeth, Cyfansoddiad a Swyddogaethau) 2004(**3**);

ystyr "PIC" ("*HPW*") yw'r corff a adwaenir fel Proffesiynau Iechyd Cymru (Health Professions Wales) ac a sefydlwyd gan Orchymyn 2004;

**Diddymu Proffesiynau Iechyd Cymru**

**2.** Diddymir PIC.

(**1**) 2003 p.4.
(**2**) O.S. 2002/253.
(**3**) O.S. 2004/551 (Cy.55).

**Dirymu Gorchmynion**

**3.** Mae Gorchymyn 2004 a Gorchymyn Proffesiynau Iechyd Cymru (Trosglwyddo Staff, Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau) 2004(**4**) yn cael eu dirymu.

**Trosglwyddo Staff**

**4.** Ar 1 Ebrill 2006—

(a) yn ddarostyngedig i is-baragraffau (b) ac (c) bydd aelodau o staff PIC sydd yn union cyn y dyddiad hwnnw yn dal contract cyflogi gyda PIC yn cael eu trin fel petaent wedi trosglwyddo o PIC ac yn gyflogedig gan Ymddiriedolaeth GIG Bro Morgannwg;

(b) bydd aelodau o staff PIC sydd yn union cyn y dyddiad hwnnw yn dal contract cyflogi gyda PIC ac sy'n delio'n llwyr neu'n bennaf â swyddogaethau awdurdod goruchwylio lleol yn cael eu trin fel petaent wedi trosglwyddo o PIC ac yn gyflogedig gan y Cynulliad Cenedlaethol;

(c) bydd aelodau o staff PIC sydd yn union cyn y dyddiad hwnnw yn dal contract cyflogaeth gyda PIC ac sy'n delio'n llwyr neu'n bennaf â sicrhau ansawdd cyrsiau nyrsio a bydwreigiaeth naill ai ar ran y Cynulliad Cenedlaethol neu'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn cael eu trin fel petaent wedi trosglwyddo o PIC ac yn gyflogedig gan y Cynulliad Cenedlaethol.

**Trosglwyddo pob eiddo a chofnod**

**5.** Ar 1 Ebrill 2006—

(a) yn ddarostyngedig i is-baragraffau (b) ac (c) bydd pob eiddo yn trosglwyddo i'r Cynulliad Cenedlaethol;

(b) bydd y les y cyfeirir ati yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn yn trosglwyddo i'r Cynulliad Cenedlaethol;

(c) bydd y cofnodion a ddelir gan PIC mewn perthynas ag arfer swyddogaeth dyfarndaliadau myfyrwyr a roddir o dan adran 63 o Ddeddf Gwasanaethau Iechyd ac Iechyd Cyhoeddus 1968(**5**) yn cael eu trosglwyddo i Ymddiriedolaeth GIG Bro Morgannwg.

**Gorfodi hawliau a throsglwyddo rhwymedigaethau**

**6.**—(1) Mae unrhyw hawl y gellid, yn union cyn 1 Ebrill 2006, ei gorfodi gan neu yn erbyn PIC yn trosglwyddo i'r Cynulliad Cenedlaethol.

(2) Mae unrhyw rwymedigaeth sy'n codi o arfer ei swyddogaethau y gellid, yn union cyn 1 Ebrill 2006, ei gorfodi yn erbyn PIC, yn trosglwyddo i'r Cynulliad Cenedlaethol.

**Dirwyn i ben faterion Proffesiynau Iechyd Cymru**

**7.**—(1) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol gymryd unrhyw gamau sy'n angenrheidiol i ddirwyn i ben faterion PIC gan gynnwys paratoi cyfrifon dyladwy PIC.

(2) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol anfon y datganiad o gyfrifon i Archwilydd Cyffredinol Cymru cyn 1 Hydref 2006.

(3) Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol—

(a) archwilio ac ardystio cyfrifon a gyflwynir iddo o dan baragraff (2); a

(**4**) O.S. 2004/550 (Cy.54).

(**5**) 1968 p.46.

(b) gosod copi ohonynt fel y'u hardystiwyd gerbron y Cynulliad Cenedlaethol, ynghyd ag adroddiad arnynt.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**6**)

*D. Elis-Thomas*

29 Mawrth 2006

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**6**) 1998 p.38. 9

## YR ATODLEN

Erthygl 5

## TROSGLWYDDO EIDDO

*Y Mae'r Gorchymyn Hwn Yn Gymwys Iddo*

Mangreoedd swyddfa ar ail lawr Golate House, Heol Eglwys Fair, Caerdydd a gynhwysir mewn les dyddiedig 9 Hydref 1997 ac a wnaed rhwng Dovey Estates Ltd(1) a Bwrdd Cenedlaethol Cymru dros Nyrsio Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru(2).

---

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diddymu ar 1 Ebrill 2006 y corff a adwaenir fel Proffesiynau Iechyd Cymru ac a sefydlwyd o dan adran 4 o Ddeddf Iechyd (Cymru) 2003. Mae'r Gorchymyn yn dirymu'r Gorchmynion a bennir yn erthygl 3 ac yn darparu ar gyfer trosglwyddo staff, eiddo a chofnodion. Mae yna hefyd ddarpariaeth ar gyfer dirwyn i ben faterion y corff.